# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL

## PENNOD 2

COFRESTRU ETC. DARPARWYR GWASANAETHAU

*Ymgeisio, amrywio a chanslo cofrestriad*

### 8 Hyd ymweliadau cymorth cartref

(1) Yr ymgymeriad a grybwyllir yn adran 7(1)(a)(ii) ac 11(3)(a)(ii) yw na fydd gwasanaeth cymorth cartref yn cael ei ddarparu drwy ymweliad sy'n fyrrach na 30 munud oni bai bod naill ai amod A, B neu C wedi ei fodloni.

(2) Mae Amod A yn gymwys pan—

(a) fo'n ofynnol i awdurdod lleol—

(i) yn rhinwedd adran 35 neu 37 o Ddeddf 2014, ddiwallu anghenion y person yr ymwelir ag ef, neu

(ii) yn rhinwedd adran 40 neu 42 o'r Ddeddf honno, ddiwallu anghenion gofalwr y person hwnnw, a

(b) fo'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny drwy ddarparu gwasanaeth cymorth cartref neu drwy drefnu bod gwasanaeth cymorth cartref yn cael ei ddarparu i'r person yr ymwelir ag ef.

(3) Amod A yw—

(a) bod yr unigolyn sy'n cynnal yr ymweliad wedi cynnal ymweliad blaenorol yn ystod y cyfnod y mae'r awdurdod lleol yn cynnal—

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/03/2020.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 8. (See end of Document for details)*

(i) cynllun gofal a chymorth o dan adran 54(1) o Ddeddf 2014 mewn cysylltiad â'r person yr ymwelir ag ef, neu

(ii) cynllun cymorth o dan yr adran honno mewn cysylltiad â gofalwr y person, a

(b) naill ai—

(i) y cynhelir yr ymweliad at yr unig ddiben o gadarnhau a yw'r person yn ddiogel ac yn iach, neu

(ii) y gall y tasgau sydd i gael eu cwblhau yn ystod yr ymweliad gael eu cwblhau'n rhesymol, a'u bod yn cael eu cwblhau, i safon sy'n bodloni unrhyw ofynion a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27 sy'n berthnasol i'r ymweliad.

(4) Mae Amod B yn gymwys pan fo gwasanaeth cymorth cartref yn cael ei ddarparu o dan amgylchiadau pan na fo Amod A yn gymwys.

(5) Amod B yw—

(a) bod ymweliad sy'n llai na 30 munud yn gyson â thelerau unrhyw drefniant i ddarparu'r gwasanaeth a wneir rhwng y darparwr gwasanaeth a'r person yr ymwelir ag ef (neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person yr ymwelir ag ef),

(b) y cynhelir yr ymweliad at yr unig ddiben o gadarnhau a yw'r person yn ddiogel ac yn iach, neu

(c) y gall y tasgau sydd i gael eu cwblhau yn ystod yr ymweliad gael eu cwblhau'n rhesymol, a'u bod yn cael eu cwblhau, i safon sy'n bodloni unrhyw ofynion a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27 sy'n berthnasol i'r ymweliad.

(6) Mae Amod C yn gymwys mewn unrhyw achos pan fo gwasanaeth cymorth cartref yn cael ei ddarparu drwy ymweliad â pherson.

(7) Amod C yw bod yr ymweliad yn cael ei gwtogi ar gais y person yr ymwelir ag ef.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 8 mewn grym ar 2.4.2018 gan O.S. 2017/1326, **ergl. 2(3)(d)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/03/2020.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 8.